LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES
Gwirfoddoli
Volunteering

GAEAF | RHIFYN 21

LLAIS GWIRFODDOLWYR

Ysgrifennwyd gan: Siani McDowell

Crynodeb o'r gaeaf

Yn ôl ym mis Rhagfyr, cynhaliwyd ein Digwyddiad Dathlu Blynyddol i ddiolch i'n gwirfoddolwyr. Ymhlith uchafbwyntiau'r prynhawn roedd ffilm newyddion hwyliog a oedd yn cynnwys cyfweliadau gyda staff a gwirfoddolwyr, yn dathlu cerrig milltir ac yn rhannu diolch dwfn a calonnog i bawb sy'n cefnogi'r cynllun. Rhannodd Dafydd Tudur, Pennaeth Ymgysylltu LLGC, ei longyfarchiadau â'r gwirfoddolwyr ar eu cyfraniad i Deiseb Heddwch Merched Cymru.
Rhoddodd Owen Watkin, sy'n gwirfoddoli yn y Llyfrgell, sgwrs hynod o ddiddorol ar Brosiect Gorsedd Cymru – cyfraniad arbennig. Mae cymuned y Llyfrgell yn edrych ymlaen yn fawr at ddysgu mwy a gweld sut y bydd y prosiect yn datblygu dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod. Roedd yn brynhawn bendigedig llawn chwerthin, te a chacennau - braf gweld y gymuned yn dod at ei gilydd.

Dyddiau gwell o'n blaen...

Wrth i'r gaeaf ddod i ben ac wrth i ni edrych ymlaen at ddyddiau brafiach, mae'n amser perffaith i feddwl am y traddodiadau sy'n dod â chysur yn ystod y misoedd oerach. Yn rhifyn y chwarter hwn, mae'r wirfoddolwraig Siani McDowell yn rhannu sut mae eu teulu yn dathlu Gŵyl Fair y Cannwyllau – dathliad sy'n cyfuno hanes, llen gwerin a defodau clyd.
O nosweithiau Gŵyl Fair y Cannwyllau, danteithion yng ngolau cannwyll gwasael, i gemau bwrdd a straeon wedi'u traddodi o genhedlaeth i genhedlaeth – mae eu myfyrdodau'n ein hatgoffa bod lle i gynhesrwydd, cysylltiad a thipyn bach o hud, hyd yn oed yn y tymor tywyllaf.
Mae mis Chwefror hefyd yn Fis Hanes LHDTC+ ac mae Siani yn rhannu mewnwelediad i sut mae'r llyfrgell yn dathlu'r mis. I ddysgu mwy am ein gwirfoddolwraig Siani ac i ddarllen eu herthyglau, ewch i dudalennau 4–8.

Newyddion:

- Rydyn ni'n falch iawn o gyhoeddi bod ein cynllun wedi cael dyfarniad swyddogol yr **Achrediad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr (IiV)**, prif safon ansawddy DU ar gyfer rheoli gwirfoddolwyr. Mae'r gydnabyddiaeth hon yn cadarnhau ein bod yn darparu profiad cynhwysol, cefnogol a gwerthfawr i'n holl wirfoddolwyr. Mae'r achrediad hwn yn dangos ein hymrwymiad i'r arferion gorau mewn cynllunio, recriwtio, diogelu a gwerthfawrogi gwirfoddolwyr, gan sicrhau bod pawb sy'n rhoi o'u hamser yn teimlo'n barchus ac wedi'u grymuso.
Unwaith eto, diolch i'r gwirfoddolwyr a roddodd eu hadborth yn ystod y cyfnod asesu. Mae'r cyflawniad hwn yn cryfhau ein henw da, yn codi hyder gwirfoddolwyr, ac yn dangos i gyllidwyr a phartneriaid ein bod yn darparu rhagoriaeth ym maes gwirfoddoli. Mae gennym nawr blac coffa swyddogol arddangos y tu allan i swyddfar gwirfoddolwyr!

Plac y tu allan i'r Swyddfa Gwirfoddolwyr

- Gwahoddwyd gwirfoddolwyr i **'Get-together' cyntaf Fforwm Staff y Llyfrgell**, lle y daeth staff a gwirfoddolwyr o'r **Fforymau LHDTC+, Hil ac Ethnigrwydd, ac Anabledd** ynghyd am de a chacennau yng Nghaffi Pendinas. Roedd y sesiwn yn gyfle i gwrdd â chyfranogwyr y Fforymau ac i rannu syniadau ar sut y gallwn barhau i greu amgylchedd cynhwysol a chynhaliol ar draws y Llyfrgell.

- **Arweiniodd yr artist Bethan Hughes weithdy creadigol i wirfoddolwyr**, wedi'i ysbrydoli gan Ddeiseb Heddwch Merched Cymru. Pwythodd y cyfranogwyr lofnodion i mewn i ddefnydd, er cof ac er anrhydedd i'r merched a arwyddodd yr ymrwymiad hanesyddol dros heddwch.

Gweithdy Creadigol gyda Bethan Hughes

- Yn dilyn cyfarfod cynhyrchiol o'r Grŵp Llywio yn 2025, mae'r Rhaglen Rhannu a Chefnogi (a elwid gynt yn y rhaglen fentora) wedi'i hail-lunio i fod yn fwy cynhwysol a hygyrch i'n gwirfoddolwyr presennol ac i'r rhai fydd yn ymuno â ni yn y dyfodol. Mae'r rhaglen ddiwygiedig hon yn pwysleisio gwerth rhannu gwybodaeth, dysgu oddi wrth ein gilydd, chynnig cefnogaeth gyd-fuddiol mewn tasgau a rolau bob dydd. **Mae'r fenter hon wedi'i hariennu gan CGGC, ac mae ganddi bellach lwyfan hyfforddi newydd i wirfoddolyr sydd a diddordeb mewn cefnogi erall, gan eu helpu i feithrin hyder a datblygu skilliau cydweithio.**

Clwb Sgwrsio

Os ydych chi'n dysgu Cymraeg, mae cyfle o hyd i ymarfer y Gymraeg mewn awyrgylch cyfeillgar ac anffurfiol.

Mae'r clwb yn cwrdd bob dydd Llun rhwng 11:00 – 11:45 yng Nghaffi Pen Dinas.

Cysylltwch ag Eilir am fwy o wybodaeth ynglŷn â chofrestru: eilir.evans@llyfrgell.cymru

Ystadegau Cyfredol

Cyfanswm y gwirfoddolwyr:
65 o wirfoddolwyr yn gwirfoddoli'n wythnosol

Oriau gwirfoddoli:
Rhagfyr: 640, Ionawr: 804, Chwefror: 860

Prosiectau a thasgau ar y gweill:
Mae 16 o brosiectau a thasgau ar y gweill ar hyn o bryd, ac mae staff y Llyfrgell yn parhau i chwilio am gyfleoedd hyd yn oed mwy cyffrous.

Croeso!

Hoffem estyn croeso cynnes i'n gwirfoddolwyr newydd: **Mirian, Deian, Joseph, Arnold, Emma C, Liam, Gwilym M, Abi, a Katy.**

Digwyddiadau...

- **Clwb Celf Am Ginio! |** Gweithdai creadigol i wirfoddolwyr a staff yn digwydd drwy gydol mis Mawrth yn arddangosfa Portread a Phŵer.

Ysgrifennu Creadigol gyda Eluned:
Dydd Iau 5ed Mawrth, 13:00 -13:40

Darnio Gweladwy gyda Thea: Dydd Mawrth 10fed Mawrth, 13:00 - 13:40

Darlunio Arsylwadol gyda Guto: Dydd Iau 19ed Mawrth, 13:00 - 13:40

Portreadau a Theimladau (auf Deutsch!) gyda Phoebe:
Dydd Mawrth 24ain Mawrth, 13:00 - 13:40

- **Cicio'r Bar: Taith Gerdded Hanesyddol y Comisiwn Brenhinol | Dydd Mercher 6 Mai**
Ymunwch â staff y Comisiwn Brenhinol a'r hanesydd pensaernïol Richard Suggett ar daith gerdded hanesyddol hamddenol a hollol hygyrch, tua 2km, ar hyd promenâd eiconig Aberystwyth. Mae'r daith gynhwysol hon yn un hamddenol gyda seibiannau rheolaidd i eistedd, ac mae croeso i gyfranogwyr ymuno neu adael ar unrhyw adeg i gwrdd a hanghenion.

Am ragor o wybodaeth am y digwyddiadau hyn, cysylltwch â'r tîm gwirfoddoli **gwirfoddoli@llyfrgell.cymru** neu galwch heibio'r swyddfa am sgwrs.

Mis Hanes LHDTC+ yn LLGC

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn dathlu Mis Hanes LHDTC+ gyda chyfres o ddigwyddiadau ac arddangosfeydd sy'n tynnu sylw at greadigrwydd, cymuned a threftadaeth cwiar. Roedd rhaglen eleni yn cynnwys **Off the Wall, noson lawen wedi oriau swyddogol gyda pherfformiadau LHDTC+ wedi'u hysbrydoli gan arddangosfa Portread a Phŵer.** Mae'r Llyfrgell hefyd wedi cynnig gweithdai creadigol i oedolion LHDTC+, gan ddarparu gofod ar gyfer ysgrifennu, perfformio, a myfyrio ar hunaniaeth. **Yn Peniarth, gall ymwelwyr archwilio set ffilm newydd, Hanes LHDTC+ o Gymru, sy'n cynnwys detholiad o glipiau archifol sy'n taflu goleuni ar fywydau cwiar dros y degawdau. Mae'r Ystafell Ddarllen y Gogledd hefyd yn arddangos casgliad bywiog o lyfrau sy'n dathlu awduron a straeon LHDTC+**. Ymhlith y teitlau mae **Queer Disability Through History** gan Daisy Holder, **Cranogwen** gan Jane Aaron, **Forbidden Lives** gan Norena Shopland, **LGBTQ+ Icons** gan David Lee Csicsko ac Owen Keehnen, ac **A Gay History of Wales** gan Daryl Leeworthy.

Mae llawer o'r gwaith hwn yn cael ei gefnogi'n uniongyrchol gan **Fforwm Staff LHDTC+ y Llyfrgell, sy'n eirioli dros leisiau, straeon a chynrychiolaeth cwiar ar draws yr sefydliad.** Mae'r Fforwm yn darparu mewnwelediad, anogaeth ac atebolrwydd sy'n sicrhau bod digwyddiadau fel Mis Hanes LHDTC+ yn cael eu dathlu mewn ffordd ystyrlon, a bod ymwelwyr cwiar yn teimlo eu bod yn cael croeso ac yn cael eu gweld ledled y Llyfrgell. Sefydlwyd y Fforwm ym mis Ionawr 2025, ac mae'n cyfarfod bob mis i drafod materion sy'n effeithio ar staff, gwirfoddolwyr a chymunedau LHDTC+. **Mae aelodau - pobl cwiar a chynghreiriaid - yn ymuno am amryw o resymau: i adeiladu cymuned, cefnogi aelodau o'u teulu, cloddio i gasgliadau cudd, neu weithio tuag at gynrychiolaeth well mewn arddangosfeydd, casgliadau, a rhaglenni cyhoeddus.** Mae'r grŵp yn cydweithio'n rheolaidd ag adrannau ar draws y Llyfrgell i sicrhau bod baneri Balchder yn cael eu harddangos, bod sylw yn cael ei dynnu i lyfrau perthnasol, a bod straeon cwiar yn cael eu gweu i mewn i'r naratif cenedlaethol y mae'r Llyfrgell yn ei gadw.
Fel rhan o'i ymrwymiad i gydraddoldeb, mae'r Fforwm yn gweithredu mentrau ehangach hefyd. Ar hyn o bryd, mae'n gweithio i gyflwyno cynhyrchion mislif am ddim ym mhob tŷ bach ac yn trefnu hyfforddiant gyda'r elusen draws leol Project Luna, i sicrhau bod y Llyfrgell yn parhau i fod yn ofod diogel a chynhaliol i bobl draws a phobl anneuaidd. **Mae'r Fforwm hefyd yn helpu i lunio presenoldeb y Llyfrgell yng Ngŵyl Cymru Cwiar Aberystwyth ar Ddydd Sadwrn 25 Ebrill.**

Gan fod rhai o'r trafodaethau sy'n digwydd mewn cyfarfodydd y fforwm yn sensitif iawn, nid yw pob cyfarfod yn agored i wirfoddolwyr. Fodd bynnag, mae croeso i wirfoddolwyr gysylltu â ni – gallwn drefnu cyfarfod sy'n canolbwyntio ar wirfoddolwyr lle bydd gwirfoddolwyr ac aelodau o'r fforwm yn dod ynghyd. Rydym wrthi'n gweithio ar greu amserlen reolaidd o gyfarfodydd agored, o bosibl bob ychydig fisoedd, fel bod lleisiau gwirfoddolwyr yn rhan gyson o'r sgwrs – cadwch lygad allan! Yn y cyfamser, gallwch gysylltu â'r fforwm unrhyw bryd drwy **fforwm.lldtc@llyfrgell.cymru**, neu ofyn i Thea, Eilir neu Cledan drefnu sgwrs.

Dewch i adnabod Siani, Awdur Preswyl y rhifyn hwn!

Rydw i wedi bod yn gwirfoddoli yn y Llyfrgell Genedlaethol ers bron tair blynedd erbyn hyn. Des i ar daith hynod ddiddorol ir Llyfrgell pan oedden yn ysgol gynradd a daeth gwirfoddoli yma yn ddewis amlwg i mi. Wrth wirfoddoli, rydw i wedi gweithio ar bob math o brosiectau megis y Prosiect Beirdd ac Awduron Cymreig, Trawsgrifio Cardiau Mynegai ITV, ysgrifennu teitlau ar gyfer Clip Cymru, ac yn fwyaf diweddar gwaith Lleoli Geo ar gyfer archif ffilm ITV. Mae gwirfoddoli yma wedi bod yn brofiad anhygoel; nid yn unig oherwydd gweithio mewn adeilad mor brydferth a hanesyddol, ond hefyd oherwydd gweithio ochr yn ochr â phobl hyfryd ac yn cael y cyfle i ymarfer fy Nghymraeg.

Rydw i wedi bod yn hoff iawn o lyfrau erioed, ac un o fy hoff leoedd i ymweld ag ef wrth dyfu i fyny (heblaw'r LLGC) oedd hen lyfrgell y dref yn Aberystwyth. Roedd yn lle mor hudolus i mi; clyd, cynnes a chroesawgar. Pan nad wyf i'n darllen na'n chwarae gemau, mae'n debygol y gwelwch fi'n ysgrifennu. Dw i wastad wedi breuddwydio am fod yn awdur, yn enwedig yn y genre ffantasi, lle gallaf adeiladu bydau, diwylliannau a hanesion cyfan o'r gwaelod i fyny. Rydw i hefyd yn frwd dros archwilio themâu fel iechyd meddwl, hunaniaeth, hunan-dderbyn a chynhwysiant yn fy ngwaith; mae pynciau fel hyn yn golygu llawer iawn i mi, gan fy mod wedi tyfu i fyny yn berson cwiar ac awtistig.

Traddodiadau yng Ngolau Cannwyll

Wrth dyfu i fyny, prin oedd y bobl o'm hamgylch oedd yn gwybod unrhyw beth am ddathlu Gŵyl Fair y Canhwyllau. Gymaint felly nes i mi ddechrau meddwl mai rhywbeth yr oedd Mam wedi'i greu oedd e! Dim ond wrth i mi ddechrau ymchwilio iddo ar gyfer yr erthygl hon yr wyf wedi dod i ddeall ac i werthfawrogi'r ŵyl hon, sy'n arafddiflannu. Cysylltais â Eglwys Llanbadarn yn Aberystwyth i ofyn sut y daeth y traddodiad hwn i fodolaeth a sut mae'n cael ei ddathlu yn y gymuned leol. Rhannodd Andrew Loat, Clerigwr y plwyf, ei fewnwelediadau â mi. Hoffwn estyn fy niolch iddo am ei gymorth! Mae Gŵyl Fair y Canhwyllau, sydd hefyd yn cael ei hadnabod fel Gŵyl Cyflwyno Iesu i'r Deml, yn cael ei dathlu ar 2 Chwefror. Er ei bod yn ŵyl Gristnogol, mae ganddi wreiddiau Paganaidd hefyd.

Fel hen draddodiadau Celtaidd megis Imbolc Gwyddelig, mae'n dathlu dyfodiad y gwanwyn ac fe'i cysylltir yn aml ag adnewyddu a dyddiau mwy golau. Yn y gred Gristnogol, mae'n coffáu ymweliad Mair a Joseff â'r Deml, cytlyno Iesu i Dduw a'i ddyddiau cynnar. Fe'i gelwir hefyd yn Ddydd Santes Ffraid, wedi'i henwi ar ôl Brigid; duwies Geltaidd a santes Gristnogol, a elwir yn Ffraid yn Gymraeg. Mae'n ŵyl y mae fy nheulu wedi'i dathlu cyhyd ag y gallaf gofio. Nid ydym yn arbennig o grefyddol, felly mae ein dathliad ni o Gŵyl Fair y Canhwyllau yn gymysgedd bach o draddodiadau o wahanol grefyddau a chredoau. Mae'n asio ystyr diwinyddol, defodau hynafol a thraddodiad gwerin, gan gynnig mynegiant bywiog o ffydd, golau a gobaith.

Rydyn ni'n goleuo canhwyllau ar hyd a lled y tŷ ac yn cadw'r addurniadau i fyny - sy'n gwneud y tŷ mor glyd a chynnes yn ystod caledi'r gaeaf! Rydyn ni hefyd yn tueddu i gymysgu ychydig o draddodiadau Gwasael i mewn, fel cael bwydydd seiliedig ar afalau a phwnsh. Mae traddodiad gwasael yn ymwneud â'r hen arfer o fynd o gwmpas yn y gaeaf, rhannu diod gynnes wedi'i sbeisio, a chynnig dymuniadau da a bendithion. Gyda'n gilydd, rydyn ni'n mwynhau pryd cartref arbennig, yn chwarae gemau bwrdd, ac yn agor mwy o anrhegion sy'n cael eu cadw ar y goeden. Ie, ar y goeden. Nid yw llawer o'r traddodiadau hyn yn rhai a ddysgon ni o lyfrau na'r ysgol, ond yn draddodiadau a basiwyd i lawr; o Hen Nain Mac o Mam, o'r Fam i ni, ac efallai un diwrnod o'n rhan ni i'r genhedlaeth nesaf o'r teulu.

Fel gyda'r rhan fwyaf o wyliau, mae gan Gŵyl Fair y Canhwyllau lu o gerddi wedi'u hysgrifennu amdani a'i thraddodiadau. Yr un sy'n fwyaf cyfarwydd i mi yw cerdd Saesneg o ganol yr 17eg ganrif gan Robert Herrick sy'n cyfeirio at y traddodiad o dynnu'r addurniadau i lawr. Fel y mae Mam (Deilydd Coron Gŵyl Fair y Canhwyllau y teulu) wedi bod yn dweud ers i ni fod yn blant, "rhaid inni dynnu'r addurniadau i lawr rhagofn y daw'r coblynnod!" – ac roeddwn i bob amser yn meddwl ai dyna sut y daeth hi a Dad i gael fi a'm brodyr...

Ceremony Upon Candlemas Eve

Down with the rosemary, and so
Down with the bays and mistletoe;
Down with the holly, ivy, all
Wherewith ye dress'd the Christmas Hall;
That so the superstitious find
No one least branch there left behind;
For look, how many leaves there be
Neglected there, maids, trust to me,
So many goblins you shall see.

- Robert Herrick

Mae yna hefyd sawl telyneg Gŵyl Fair y Canhwyllau sy'n ymwneud â'r tywydd, yn enwedig y syniad y bydd y tywydd ar ddydd Gŵyl Fair y Canhwyllau yn rhagweld gweddill y flwyddyn. Ceir llawer o wahanol amrywiadau, ond mae'r rhan fwyaf os nad pob unyn dilyn patrwm tebyg, fel y rhain:

Os bydd Dydd Gŵyl Fair y Canhwyllau yn deg ac yn llachar, bydd y gaeaf yn ceisio brwydro unwaith eto. Os daw Dydd Gŵyl Fair y Canhwyllau â chymylau a glaw, ni ddaw'r gaeaf yn ôl.

Os bydd Dydd Gŵyl Fair y Canhwyllau yn wyllt ac yn galed, mae'r gaeaf bellach wedi mynd yn ddigon pell. Pan fydd Dydd Gŵyl Fair y Canhwyllau yn glir ac yn ddisglair, y gwaethaf o'r gaeaf sydd eto i ddod.

Cynheuir canhwyllau yn y cartrefi ac yn yr eglwysi i gynrychioli goleuni Iesu neu ddyddiau cynhesach sydd ar ddod (neu'r ddau, yn dibynnu ar gredoau pob unigolyn). Yr arfer oedd i bobl ddod â chanhyllau o'u cartrefi i'r eglwys i'w bendithio, fel y gallent wedyn fendithio eu cartrefi eu hunain.

Y dyddiau hyn, mae rhai eglwysi'n dathlu Gŵyl Fair y Canhwyllau gyda gorymdaith o ganhyllau wedi'u goleuo, ynghyd â darlleniadau Beiblaidd arbennig mewn gwasanaethau Cymun. Defnyddiwyd eirlysiau, neu Gloch Gŵyl Gannwyll, yn gyffredin i addurno tai ac eglwysi, gan eu bod yn aml yn cael eu hystyried yn symbol o burdeb. Cedwir yr addurniadau i fyny tan Noswyl Gŵyl Fair y Canhwyllau, gan ystyrir ei bo anlwcus cadw unrhyw addurniadau ar ôl y dydd hwnnw.

Yn gryno, mae Gŵyl Gannwyll yn draddodiad teuluol sy'n agos iawn at fy nghalon. I mi, dyma wir ddiwedd y gaeaf a dechrau blwyddyn newydd sy'n (gobeithio) fwy disglair o'n blaenau. Wrth i ni symud ymhellach i'r dyfodol, mae llawer o draddodiadau ac gwyliau fel Gŵyl Fair y Canhwyllau yn raddol ac yn cael eu colli i'r cenedlaethau nesaf - ac mae hynny, yn fy marn i, yn drueni mawr. Dyma'r dathliadau sy'n ein cysylltu â'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol, ac sy'n rhoi esgus inni ymlacio o fywyd a threulio amser gyda'n hanwyliaid.

GALW AGORED AM DDARNAU O YSGRIFENAU!

Rydyn ni'n falch iawn o gyhoeddi Galwad Agored am waith ysgrifennu creadigol gwreiddiol a barddoniaeth ar gyfer rhifyn y Gwanwyn o Llais y Gwirfoddolwyr, a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2026.

Ar gyfer y rhifyn hwn, rydym yn gwahodd gwirfoddolwyr i anfon cerdd fer neu ddarn creadigol byr wedi'i ysbrydoli gan y thema "Hapusni'r Gwanwyn." Gofynnwn hefyd i chi gynnwys llun rydych chi wedi'i dynnu eich hun o eiliad wanwynol a'ch ysbrydolodd i'w dal mewn naill ai barddoniaeth neu ryddiaith – bydd y ddelwedd hon yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r darn a ddewisir yn y newyddlen. Mae croeso i chi ddehongli'r thema hon mewn unrhyw ffordd – fel stori, teimlad, cymeriad, atgof, neu unrhyw beth sy'n dod â llawenydd. Gellir cyflwyno gwaith yn Gymraeg neu'n Saesneg.

I gadw'r broses yn hygyrch, gofynnwn fod:

- Cerddi yn ddim mwy na 10 llinell
- Straeon yn fyr, hyd at 100 o eiriau

Bydd dau ddarn yn cael eu dewis i ymddangos yn rhifyn nesaf y cylchlythyr. Rydyn ni'n edrych ymlaen yn eiddgar at weld beth sy'n eich ysbrydoli - ac i rannu eich creadigrwydd â'r Llyfrgell. Anfonwch eich cyflwyniadau at: **thea.batty@llyfrgell.cymru**

LLGC NLW

Yn awyddus i ymuno â'n cymuned wirfoddoli? Cysylltwch â ni:
Eilir Evans | Cydlynydd Gwirfoddolwyr
Ebost: volunteering@library.wales
Ffôn: (01970) 632424